# Cofnodion Cyfarfod y Cyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 9 Chwefror 2023 am 3.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd A S Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Leanne Ahern, Cyngor Abertawe
Maggie Berry, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Mark Brier, Heddlu De Cymru
Amanda Carr, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe
Martyn Evans, Cyfoeth Naturiol Cymru
Bailie Jones, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Allison Lowe, Cyngor Abertawe
Keith Reid, Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Suzy Richards, Cyngor Abertawe
Amy Richmond-Jones, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Karen Stapleton, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Paul Thomas, Cyngor Abertawe
Roger Thomas, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mark Wade, Grŵp Iechyd a Thai
Ness Young, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Sian Harrop-Griffiths, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Professor Chris Jones, Llywodraeth Cymru
Deanne Martin, Carchar a Gwasanaeth Prawf EMe
Martin Nicholls, Cyngor Abertawe
Rob Stewart, Cyngor Abertawe
Emma Woollett, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

## 40 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

## 41 Cofnodion.

**Penderfynwyd** y dylid llofnodi a chymeradwyo cofnodion Cyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2022 fel cofnod cywir.

## 42 Y Diweddaraf ar Gamau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol.

Nodwyd y cofnod gweithredu.

**43 Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Nid oedd unrhyw gwestiynau cyhoeddus.

**44 Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel 2022, 1 Ionawr 2022 - 31 Rhagfyr 2022.**

Darparodd Paul Thomas, Rheolwr Partneriaeth Integreiddio Gymunedol, ddatganiad blynyddol o waith Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel yn ystod 2022 fel rhan o'r trefniadau llywodraethu trosgynnol.

**Penderfynwyd** derbyn a nodi Datganiad Blynyddol Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel.

**45 Pwysau Iach Cymru Iach. (Llafar)**

Darparodd Keith Reid, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus, adroddiad ar y rhaglen Pwysau Iach: Cymru Iach.

Roedd y Rhaglen Ymagwedd Systemau Cyfan Pwysau Iach: Cymru Iach (YSC PICI) yn rhaglen gydweithredol rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru,  Cyfarwyddwyr y Grŵp Arweinyddiaeth Iechyd Cyhoeddus a Llywodraeth Cymru. Byddai'r System Ymagwedd Gyfan at Bwysau Iach yng Nghymru yn edrych i'r tymor hir a byddai strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru yn sail iddi.

Roedd y rhaglen yn rhan o raglen genedlaethol ond byddai'r rôl ar lefel leol yn adeiladu ar berthnasoedd a phartneriaethau lleol a chysylltiadau gyda chymunedau lleol i roi newid ar waith a'i ysgogi. Byddai'r ymagwedd yn cydnabod pwysigrwydd adeiladu ar asedau a chyfleoedd lleol a chryfhau cynghreiriau traws-sector.

Byddai'r gwaith yn cael ei wneud gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys cymunedau lleol, i ddeall y system a'r cyfleoedd am newid yn well. Roedd y broses yn ceisio datgelu'r strwythurau a'r nodau o fewn system benodol.

Roedd y Cyd-bwyllgor hefyd wedi darparu manylion am raglenni eraill a gynhaliwyd mewn cymunedau, y gallai canlyniadau'r rheini helpu tîm y rhaglen.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Reid am ei gyflwyniad addysgiadol.

**46 Y diweddaraf am y Cynllun Lles Lleol. (Llafar)**

Rhoddodd Suzy Richards, y Swyddog Polisi Cynaliadwy, ddiweddariad ar y cynnydd hyd yn hyn mewn perthynas â datblygiad y Cynllun Lles Lleol.

Roedd y cynllun yn parhau i ddatblygu a byddai'n cael ei ddiweddaru yn dilyn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a byddai'r Cyd-bwyllgor yn derbyn yr ailadroddiad diweddaraf o'r cynllun yn dilyn y cyfarfod hwn.

Er bod disgwyl i ychydig o bartneriaid gyflwyno ymatebion o hyd, rhoddwyd yr holl ymatebion ar waith cyn gynted ag yr oeddent wedi'u derbyn. Fodd bynnag, nodwyd bod ymatebion wedi bod yn siomedig o isel o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Trefnwyd gweithdy ar gyfer 15 Chwefror er mwyn i bartneriaid benderfynu ar y newidiadau/sylwadau/ychwanegiadau terfynol.

Cynhaliwyd tri gweithdy. Caiff yr arian rhanbarthol ei ddefnyddio i gyfieithu'r cynllun a fersiwn hawdd ei darllen, ynghyd â fideo digidol a fyddai hefyd yn cael ei gynhyrchu a byddai delweddau a theiposod yn cael eu diweddaru. Cytunwyd y gellir cytuno ar yr ymholiad ynghylch brandio gan yr holl bartneriaid drwy e-bost.

**47 Fframwaith Perfformiad/Adroddiadau Amlygu o'r 4 ffrwd waith.**

Nodwyd y Fframwaith Perfformiad/Adroddiadau Amlygu o'r 4 ffrwd waith.

**48 Cefnogaeth ar gyfer Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus 2023-2024 i 2025-2026.**

Er gwybodaeth. Fodd bynnag, gan fod angen penderfyniad o fewn yr ychydig wythnosau nesaf mewn ymateb i'r llythyr, nodwyd y cynhelir trafodaethau pellach yn ystod y gweithdy a drefnwyd ar gyfer 15 Chwefror.

**49 Rhaglen Waith ar gyfer y dyfodol:**

Nodwyd y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.05 pm

**Cadeirydd**